

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

### Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

#### Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans

WESP 13

Ymateb gan : Cyngor Gofal Cymru

Response from : Care Council for Wales

**Cwestiwn 1** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru?

Mae Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) yn gefnogol iawn o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru a rôl y Gymraeg mewn Cynlluniau Strategol Addysg yn ei gyflawni. Mae galw cynyddol am gynnig gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y Gymraeg. Ni ellir gwneud hyn os nad oes addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac academaidd gadarn ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae sefydlu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gam cadarnhaol iawn ymlaen. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi llunio cynlluniau trylwyr i fodloni'r galw am addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma'r ail flwyddyn i'r cynlluniau hyn gael eu darparu. Rydym yn dymuno'r gorau iddynt ac yn ddiolchgar am yr amser a'r ymdrech a roddwyd i'w datblygu.

Gyda'r cynlluniau'n cael eu darparu am yr ail flwyddyn iawn, mae'n bleser gennym gynnig ein barn fel y sefydliad sy'n gyfrifol am hyrwyddo hyfforddiant yn y gweithlu gofal a blynyddoedd cynnar. Yn ein barn ni, mae cyfleoedd i gryfhau darpariaeth, a manylir ar hyn isod.

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn?

Gweler isod.

<p><b>Cwestiwn 2</b> – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?</p>
<p>Gweler isod.</p>
<p>Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn?</p>
<p>Gweler isod.</p>
<p><b>Cwestiwn 3</b> – Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)?</p>
<p>Mae hon yn swyddogaeth bwysig ac rydym o blaid y camau y mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn eu cymryd. Mae cydlynid yn allweddol er mwyn sicrhau llwybr clir o ddysgu cyn ysgol i ôl-16 ac i ddysgu a hyfforddiant yn y gwaith er mwyn i werth y Gymraeg fel iaith fyw fod yn gyson. Mae angen cefnogi hyn gyda disgwyliadau clir ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant.</p>
<p>Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?</p>
<p>Mae arweinyddiaeth gyda neges glir gadarn yn hollbwysig. Mae potensial o hyd i'r Gymraeg gael ei hystyried a'i disgrifio yn faes ychwanegol/sy'n achosi problemau. Mae'r grŵp wedi profi hynny ac yn cefnogi rhoi Mwy Na Geiriau ar waith, sef y strategaeth i wella'r defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
<p><b>Cwestiwn 4</b> – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*? (*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)?</p>
<p>Mae'n dda gweld tystiolaeth o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhyngweithio'n effeithiol â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae nifer o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi creu cysylltiadau clir â Dechrau'n Deg a'r polisi blynyddoedd cynnar ehangach ac wedi cymryd camau pendant i fodloni'r galw am leoedd cyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Prif Weithredwr y Cyngor Gofal yw Cadeirydd grŵp gweithredu <i>Mwy Na Geiriau</i> ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y Gymraeg. Ar lefel polisi cenedlaethol, mae'r perygl yn parhau o weithio ar eu pen eu hunain heb gysylltiad gwirioneddol rhwng y rhai yn y llywodraeth sy'n arwain ar y Gymraeg ac ar Addysg Gymraeg a ffrydiau gwaith eraill</p>

<p>sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg, fel strategaethau gweithlu.</p>
<p>Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?</p>
<p>Mae'n hollbwysig sicrhau cydweithrediad rhwng swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg ar draws gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru, gyda llwybr clir o flynyddoedd cynnar i ddysgu ôl-16 ac yn y gwaith er mwyn cydlynu'r weledigaeth a'r cyd-gynllunio strategol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn atgyfnerthu gwerth addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Pwysleisiodd 'Codi Golygon', yr adolygiad o Gymraeg i oedolion, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 bwysigrwydd arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru i annog cydweithrediad a chydweithio. Mae cyfle gwirioneddol i Lywodraeth Cymru greu cysylltiadau rhwng rôl dysgu i oedolion, dysgu cymunedol ac addysg a hyfforddiant ffurfiol. Mae hyn yn bwysig iawn mewn meysydd fel iechyd, gofal a chymorth, lle mae angen clir i wella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddinasyddion yng Nghymru. Cyflogir tua 80,000 ym maes gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a nifer tebyg yn y gwasanaethau iechyd. Mae galw cynyddol am wasanaethau Gymraeg yn y meysydd hyn, felly mae pob rheswm i'w ystyried yn sector blaenoriaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Gymraeg yn y dyfodol ac annog cydweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.</p>
<p><b>Cwestiwn 5</b> – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel?</p>
<p>Ers blynyddoedd, nid yw'r diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg ôl-16 wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos gwerth dysgu Cymraeg ac atgyfnerthu'r cysylltiad â Chymraeg yn y gweithle. Mae'n dda gweld bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-17 yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Bydd yn bwysig i gynlluniau 2017-20 adeiladu ar y rhain.</p> <p>Gan ystyried profiad eang y Cyngor Gofal o weithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer gofal cymdeithasol, yn enwedig dysgu yn y gwaith, a darpariaeth AB, mae angen arweinyddiaeth o ran datblygu adnoddau dysgu ac aseswyr.</p>
<p>Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn?</p>
<p>Mae gan y Cyngor Gofal bwerau rheoleiddio mewn perthynas â hyfforddiant cymhwysio ym maes gwaith cymdeithasol ac rydym wedi defnyddio'r pwerau hynny i fanteisio ar y cyfleoedd Cymraeg mewn hyfforddiant gwaith cymdeithasol a'i gwneud yn ofynnol i gynnig modiwl ymwybyddiaeth o'r iaith. Er nad oes gennym yr un pwerau ar hyn o bryd mewn perthynas â hyfforddiant ym maes gofal cymdeithasol, mae'r cynnig ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i ni gael pwerau tebyg i'r rhai sydd gennym ar gyfer gwaith cymdeithasol. Os cawn hynny, byddwn yn gallu pennu gofynion tebyg ar gyfer cyrsiau gofal cymdeithasol.</p> <p>Mae awdurdodau lleol yn cymryd camau cadarnhaol i gyflawni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg. Mae'n bwysig nad yw'n dod i ben gyda chylch gwaith</p>

Ysgolion, ond yn ymestyn i'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl y tu hwnt i 16 oed. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod partneriaid eraill, gan gynnwys cyrff fel y Cyngor Gofal sy'n rheoleiddio rhaglenni hyfforddiant ac addysg, yn cyfrannu hefyd.

Er bod Mwy na Geiriau yn nodi rhai targedau ar gyfer sefydliadau fel y Cyngor Gofal a chyrff cyfatebol ar gyfer ieuchyd, mae'n bwysig nad yw'r gofyniad yn cael ei ystyried fel baich ychwanegol, ond yn hytrach fel rhan o'r addysg a'r hyfforddiant cenedlaethol i bawb o'r ysgol i AB, AU, hyfforddiant proffesiynol, dysgu oedolion a dysgu yn y gwaith. Heb y dull cydgyssylltiedig hwn, efallai na fydd gwerth y Gymraeg yn y gwaith ac mewn bywyd yn cael ei wireddu.